

## CYNGOR CYMDEITHAS LLANFROTHEN

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar Nos Lun 9 Ionawr 2017.

PRESENNOL : Y Cyngorwyr Glyn Griffiths (Cadeirydd), Dafydd Watts (Is- Gadeirydd )

RV Roberts, Nia Povey.

YMDDIHEURIADAU : Llio Griffiths ,Ifor Jones, R P Jones, Nyfain Wyn.

COFNODION : Cyflwynwyd a Chadarnhawyd Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 1 Tachwedd 2016.

AROSFA BWS :Adroddodd y Clarc fod yr arwydd 'Arosfa Bws ' oedd ar un ochr y ffordd yndweud ei fod yn berthnasol l'r ddwy ochr y ffordd. Adroddwyd fod Cyngor Gwynedd wedi cytuno gyda perchennog y tŷ cyfochrog na fyddent yn adeiladu lloches bws ar y safle. Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a hysbysu Cyngor Gwynedd fod newif wedi body m mherchnogaeth y tŷ.

GWRYCHOEDD A CHOED AR Y FFORDD O LANFROTHEN I RHYD: Cyflwynwyd llythyr Gyngor Gwynedd yn hysbysu nad oeddent yn derbyn fod y coed a'r gwrychoedd yn berygl ac felly na fyddent yn gweithredu yn erbyn y tiffeddianwyr. Adroddwyd fod y Cadeirydd wedi cyfarfod swyddog o Gyngor Gwynedd ar y safle a'l fod bellach wedi cytuno l ddanfon rhybudd l'r tiffeddianwyr l ymgymeryd â'r gwaith. Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

LLWYBR TROED O LANFROTHEN I BENRHYNDEUDRAETH: Yr oedd y Cyngor yn parhau o'r farn fod cerdded ar y ffordd yn beryglus ac y dylid pwysu am welliannau buan.

Penderfynwyd gwneud cais l Gyngor Gwynedd am gyfarfod gyda'r swyddog perthnasol ar y safle.

GWARIANT LLWYBRAU CYHOEDDUS : Adroddodd y Clarc fod Cyngor Gwynedd wedi ad-dalu £629 tuag at y gwariant o £750 ar y llwybrau cyhoeddus.

CYFRANIADAU : Cyflwynwyd y ceisiadau am gyfraniadau a phenderfynwyd cyfranu fel a ganlyn :-

Ysgol y Garreg £150

Yr Wylan £50

Ambiwllans Awyr Cymru £50

Penderfynwyd hefyd wneud cyfraniad o£30 l Glyn Griffiths am gael defnyddio ei faes parcio ar gyfer angladdau. (datganwyd diddordeb yn yr eitem hon gan y Cyngorwyr Glyn Griffiths )

PRAESEPT Y CYNGOR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2018.

Cyflwynwyd adroddiad y Clarc ar sefyllfa ariannol y Cyngor ar y pryd ynghyd ac amcan gyfrif o ofynion y Cyngor am y flwyddyn. Atgoffodd y Cyngorwyr y bydd yn ofynnol l'r Cyngor ystyried y gost oherwyff bydd Cyngor Gwynedd yn trosglwyddo rhai oblygiadau y maent

hwy yn ei ariannu ar hyn o bryd I'r Cyngor hwn. Yn ychwanegol bydd 2017 yn flwyddyn etholiadau Cyngorau Cymuned a bydd peth o'r costau yn disgyn ar y Cyngor. Penderfynwyd gwneud Presept o £5,800 ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2018.

MATERION YN YMWNEUD Â'R ARCHWILWYR ALLANOL : Adroddodd y Clarc fod nifer o gwynion am y modd yr oedd yr Archwilwyr Allanol wedi gweithredu yn ystod y flwyddyn. Nid oedd modd trafod dim o'r materion dan sylw ar y ffôn drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg gyda'r Archwilwyr. Penderfynwyd cwyno wrth yr Aelod I'r Cynulliad ac I Simon Thomas A.C ynglyn a'r diffyg hwn gyda copi I Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

SWYDD CLARC Y CYNGOR : Adroddwyd nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn yn dilyn hysbysebion i'r wasg leol. Penderfynwyd gofyn I Glarcod Cyngorau Dolbenmaen, Maentwrog a Beddgelert a fyddai ganddynt hwy ddiddordeb yn y swydd.

BILIAU : Penderfynwyd talu y canlynol :-

Yr Wylan £15

K Williams £593.75

Cymdeithas y Clarcod £38

Norman Kerr £370

Cambrian News £59.52

CYFEILLION ELIS WYN : Adroddwyd fod Y Cyfeillion yn gwneud ceisiadau am grant o wahanol ffynonellau ac yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor I hynny. Penderfynwyd cefnogi unrhyw gais y byddent yn gwneud.

DEFAID YN CRWYDRO :- Adroddwyd fod defaid yn crwydro i'r ffordd rhwng Llys Awel a chroesffordd Wern am nad oedd ffens i'w rhwystro. Penderfynwyd dwyn y mater i sylw Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd gyda chais iddynt weithredu.

13 GARREG FRECH :- Adroddwyd fod Cartrefi Cymunedol Gwynedd wedi gwneud addewid y byddent yn ceisio prynu 13 Garreg Frech I'w stoc tai. Penderfynwyd holi beth oedd y canlyniad.

ARCHWILIO GWARIANT Y CYNGOR YN YSTOD Y FLWYDDYN :- Cyflwynwyd adroddiad y Clarc ar sefyllfa ariannol y Cyngor yn cynnwys y derbyniadau a'r gwariant . Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

Y FYNWENT :- Adroddwyd mai pris Ifan Williams am un toriad ychwanegol yn y fynwent fyddai £175. Penderfynwyd ei dderbyn.